

Panel Dyfarnu Cymru

Adroddiad Blynyddol



2003 - 2004

Rhagair

Ar 1 Hydref 2002 penododd Cynulliad Cenedlaethol Cymru aelodau cyntaf Panel Dyfarnu Cymru. Corff newydd yw'r Panel Dyfarnu a sefydlwyd i ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn erbyn aelodau llywodraeth leol o dan y fframwaith moesegol newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Roedd yn fraith cael fy mhenodi'n Llywydd cyntaf y Panel, sy'n cynnwys tri aelod cyfreithiol, sef Helen Cole, Hywel James a Stewert Sandbrook-Hughes, a phedwar aelod lleig, Ian Blair, y Cyngorydd Colin Evans, y Cyngorydd Christine Jones a Juliet Morris.

Hoffwn fynegi fy niolch i bob aelod o'r Panel sydd, yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y swydd, wedi gweithio'n hynod o frwd ac ymroddgar i'm helpu i sefydlu'r Panel ac ymdrin â gwrandawiaid. Maent wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ag urddas a thegwch. Hoffwn ddiolch hefyd i Stephen Phipps, Cofrestrydd y Panel, a Carol Webber yn yr Uned Gymorth am eu cymorth i'r Panel a'i driwlysoedd.

Un o'm cyfrifoldebau fel Llywydd yw cynhyrchu adroddiad blynyddol ar weithgareddau'r Panel. Mae hwn, fy adroddiad cyntaf, yn cwmpasu deunaw mis cyntaf ein gwaith o fis Hydref 2002 hyd fis Ebrill 2004.

Rwyf hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod aelodau'r Panel wedi eu hyfforddi'n briodol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae nifer o ddyddiau hyfforddi wedi eu cynnal yn ystod y cyfnod dan sylw, sydd wedi galluogi aelodau'r Panel i ymgyswrtu â'r rheoliadau a'r gweithdrefnau sy'n rheoli'r ffordd y caniateir i'r Panel gynnal ei wrandawiaid. Hoffwn gofnodi fy niolch i'r person sy'n cyfateb imi ym Mhanel Dyfarnu Lloegr, David Laverick. Mae ef a'i staff wedi rhoi cymorth amhrisiadwy inni yn ystod y dyddiau cynnar hyn trwy rannu eu profiadau a chyfrannu gwybodaeth.

Mae'r Cyngor Tribiwnlysoedd hefyd wedi fy nghynorthwyo i sefydlu tribiwnlys newydd. Mae ei raglen ddiwygio a'i ddeunydd hyfforddi ar wahanol agweddau ar ymarfer tribiwnlysoedd wedi ein galluogi i sicrhau bod ein Panel wedi mabwysiadu'r arferion gorau yn y ffordd y mae'n cynnal ei weithgareddau.



Cefais gyfarfodydd defnyddiol iawn ag Elwyn Moseley, y Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru (yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol) hyd ei ymdeoliad ym mis Medi 2003, ac â'i olynydd, Adam Peat. Rwyf hefyd wedi cwrdd â'r rhan fwyaf o Swyddogion Monitro'r Cynghorau Sir a'r Cynghorau Bwrdeistref Sirol y mae ganddynt, ynghyd â'r pwyllgorau safonau lleol, ran bwysig iawn i'w chwarae yn y gwaith o gynnal safonau moesegol eu cynghorau.

Mae'n amlwg mai prif swyddogaeth y Panel yw penderfynu ynghylch honiadau yn erbyn aelodau y deuir â hwy gerbron y Panel a, lle bo'n briodol, gosod cosbau ar y rhai hynny sy'n torri'r cod ymddygiad. Ond rwyf hefyd yn credu bod gwaith y Panel yn gwneud cyfraniad pwysig i nodau ehangach y cod ymddygiad a'r fframwaith moesegol newydd trwy godi safonau a hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae llywodraeth leol yn gwneud ei gwaith.

Efallai fod y nifer fechan o achosion y mae'r Panel Dyfarnu wedi ymdrin â hwy yn y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn adlewyrchu, yn rhannol, ryw gymaint o ymgyfarwyddo â'r fframwaith moesegol newydd. Ond rwy'n ffyddiog ei fod hefyd yn arwydd bod aelodau etholedig a chyfetholedig yng Nghymru yn cydnabod pwysigrwydd safonau priodoldeb mewn swyddi cyhoeddus, ac yn ymgyrraedd atynt.



J PETER DAVIES

Llywydd

Gorffennaf 2004

Cynnwys

1. Cyflwyniad/Cefndir

- Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Cod Ymddygiad
- Swyddogaeth y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru a Phwyllgorau Safonau Lleol
- Swyddogaeth Panel Dyfarnu Cymru

2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru

3. Honiadau o Gamymddwyn

- Crynodeb o'r honiadau a dderbyniwyd gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru
- Crynodeb o Dribiwnlysoedd Achos
- Crynodeb o Dribiwnlysoedd Apêl

4. Hyfforddi a Datblygu Aelodau

- Hyfforddi'r Panel
- Y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol
- Hyfforddiant ar y Cyd

5. Gorolwg ar Weithdrefnau

6. Yr Uned Gymorth



1. Cyflwyniad/Cefndir

Deddf Llywodraeth Leol 2000

Roedd Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sefydlu fframwaith i hyrwyddo cadw safonau ymddygiad cyson gan aelodau llywodraeth leol yng Nghymru. Datblygwyd y fframwaith o ganlyniad i drydydd adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Nolan, ac a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1997. Ar 21 Mehefin 2001, gwnaeth y Cynulliad Cenedlaethol y gyfres gyntaf o reoliadau i sefydlu'r fframwaith.

Cod Ymddygiad

Sail y fframwaith moesegol yw cod ymddygiad statudol. Roedd gan bob rhan o lywodraeth leol (ac eithrio awdurdodau'r heddlu) - cynghorau sir, bwrdeistref sirol, tref a chymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol - hyd 21 Rhagfyr 2001 i fabwysiadu cod ymddygiad yn cwmpasu darpariaethau Cod Ymddygiad Enghreifftiol a bennwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd yn rhaid i bob aelod llywodraeth leol, yn aelodau etholedig a chyfetholedig, roi ymrwymiad y byddent yn dilyn y cod yr oedd eu cyngor neu eu hawdurdod wedi ei fabwysiadu.

Roedd y Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn gymwys fel mater o drefn i unrhyw gyngor neu awdurdod nad oedd wedi mabwysiadu ei god ei hun erbyn 21 Rhagfyr 2001 ac roedd yn rhaid i'w aelodau gydymffurfio â'r Cod Enghreifftiol o'r dyddiad hwnnw.

Mae awdurdodau'r heddlu yng Nghymru, fel yn Lloegr, yn ddarostyngedig i god ymddygiad enghreifftiol a bennwyd gan Lywodraeth y DU.

Swyddogaeth y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru/Pwyllgorau Safonau

Gall unrhyw un gyflwyno honiad ysgrifenedig i'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru bod aelod etholedig neu gyfetholedig wedi torri cod ymddygiad



awdurdod. Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 bwerau i'r Comisiynydd ystyried honiadau o'r fath ac ymchwilio iddynt.

Gall y Comisiynydd ddod i'r casgliad, wedi ymchwilio, na chafodd y cod ei dorri neu nad oes angen gweithredu pellach. Os bydd yn penderfynu fel arall, bydd yn cynhyrchu adroddiad pan fydd yr ymchwiliad wedi ei gwblhau ac yn ei anfon naill ai at Swyddog Monitro'r awdurdod perthnasol neu at Lywydd y Panel Dyfarnu.

Os bydd y Comisiynydd yn cyfeirio'r mater at y Swyddog Monitro, bydd Pwyllgor Safonau'r awdurdod perthnasol yn ystyried yr adroddiad ar yr ymchwiliad. Bydd hefyd yn ystyried unrhyw sylwadau gan yr unigolyn sy'n destun yr ymchwiliad ac yn penderfynu wedyn a ddylid pennu unrhyw gosb neu beidio. Gallai'r gosb honno amrywio o gerydd i atal yr aelod am hyd at chwe mis.

Gall y Comisiynydd roi'r gorau i ymchwilio ar unrhyw adeg a chyfeirio'r materion sy'n destun yr ymchwiliad at Swyddog Monitro'r awdurdod perthnasol dan sylw er mwyn iddo ef/iddi hi gynnal ymchwiliad ac adrodd wrth y Pwyllgor Safonau.

Swyddogaeth Panel Dyfarnu Cymru

Mae gan y Panel Dyfarnu ddwy swyddogaeth statudol:

- ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim i ystyried adroddiadau gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, yn dilyn ymchwilio i honiadau bod aelod heb gydymffurfio â chod ymddygiad awdurdod perthnasol; ac
- ystyried apelau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau lleol.

Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim

Pan fydd y Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol yn anfon adroddiad at Lywydd y Panel Dyfarnu, cynullir "tribiwnlys achos" wedi'i ffurfio o'r Panel i ystyried yr adroddiad, i dderbyn tystiolaeth ac i benderfynu a dorrwyd y cod ymddygiad.

Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu na chydymffurfiwyd â chod ymddygiad awdurdod, mae ganddo bwerau i atal aelod, neu ei atal yn rhannol, am hyd at



flwyddyn; neu gall anghymhwyso aelod am hyd at bum mlynedd. Pan fydd tribiwnlys achos yn penderfynu nad yw unigolyn wedi cydymffurfio â chod ymddygiad awdurdod, gall yr unigolyn hwnnw apelio i'r Uchel Lys yn erbyn y penderfyniad hwnnw, neu unrhyw benderfyniad o eiddo'r tribiwnlys ynghylch y gosb sydd i'w phennu o dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Pan fydd y Comisiynydd yn credu bod angen gwneud hynny er budd y cyhoedd, gall gyflwyno adroddiad interim i Lywydd y Panel Dyfarnu yn argymhell atal aelod tra bydd ymchwiliad yn parhau. Bydd tribiwnlys achos interim yn penderfynu a ddylid atal yr aelod neu ei atal yn rhannol am hyd at chwe mis.

Tribiwnlysoedd Apêl

Pan fydd y Comisiynydd wedi cyfeirio'r mater at y swyddog monitro a'r pwyllgor safonau wedi penderfynu na chydymffurfiwyd â'r cod ymddygiad, mae gan yr aelod dan sylw yr hawl i apelio i'r Panel Dyfarnu. Gall y tribiwnlys apêl gadarnhau'r gosb a bennwyd gan y pwyllgor safonau, neu ei chyfeirio'n ôl at y pwyllgor ag argymhelliad y dylid pennu cosb wahanol. Gall y tribiwnlys apêl hefyd wrthdroi penderfyniad pwyllgor safonau bod aelod wedi torri'r cod ymddygiad.



2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru

Penododd y Cynulliad Cenedlaethol aelodau'r Panel am gyfnod o bum mlynedd o 1 Hydref 2002 ymlaen. Mae gan aelodau'r Panel amrediad eang o wybodaeth a phrofiad. Maent wedi eu lleoli o amgylch Cymru sy'n golygu, ar yr amod nad oes gwrthdaro rhwng buddiannau, y gellir penodi aelodau i driwlynlysoedd ar sail ddaearyddol.

Mae'r Llywydd, yr aelodau cyfreithiol ac un o'r aelodau lleyg yn siarad Cymraeg.



Mae Llywydd y Panel Dyfarnu, **Mr J Peter Davies**, yn rhedeg ei bractis cyfreithiol ei hun yng Nghaerdydd sy'n arbenigo mewn ymgyfreitha sifil a masnachol ac, yn arbennig, mewn materion rheoleiddio. Mae'n ddirprwy Farnwr Rhanbarth ac yn Gadeirydd y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr.



Mae **Mr Stewert Sandbrook-Hughes** yn fargyfreithiwr yn Abertawe ac yn ddyfarnwr hefyd i'r Gwasanaeth Dyfarnu Parcio Cenedlaethol.



Mae **Mr Hywel James** yn bartner gyda James a Bulteel yng Nghaerdydd ac yn arbenigo mewn ymgyfreitha ac mewn esgeuluster proffesiynol yn arbennig.



Mae **Mrs Helen Cole** yn bartner mewn practis preifat yng Nghastellnewydd Emlyn. Mae'n aelod o'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant yn Lleol.



Mae **Mr Ian Blair** yn ymgynghorydd peirianeg sifil rhan-amser. Hyd yn ddiweddar roedd yn Syrffwr Sir â Chyngor Sir Powys a bu'n ddarlithydd gwadd i Brifysgol Cymru, Aberystwyth.





Mae'r **Cynghorydd Colin Evans** yn gynghorydd Llafur â Chyngor Sir Caerfyrddin ac mae'n Gadeirydd Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd y Cyngor. Mae hefyd yn gynghorydd ar Gyngor Tref Cwmaman.



Mae'r **Cynghorydd Christine Jones** yn aelod dros y Democratiaid Rhyddfrydol ar Gyngor Tref Llandudno.



Mae **Ms Juliet Morris** yn Swyddog Polisi yn yr Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol a chyn hynny bu'n gweithio yng Nghanolfan y Gyfraith Caerdydd ac i'r Gymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth yng Nghymru.



3. Honiadau o Gamymddwyn

Crynodeb o'r honiadau a dderbyniwyd gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru

Yn 2003-2004, derbyniodd y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru 183 honiad o dorri'r cod ymddygiad, ac o'r rheiny, ni dderbyniwyd 98 i'w hymchwilio.

O'r 85 o honiadau a dderbyniwyd i'w hymchwilio, penderfynodd y Comisiwn na fu torri ar y cod mewn 26 achos. Yn y diwedd, dim ond dau achos a gyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu i benderfynu yn eu cylch. Crynhoir y rheiny isod.

Crynodeb o Dribiwnlysoedd Achos

APW/001/2003/CT - Cyngor Sir y Fflint

Roedd yr atgyfeiriad gan y Comisiynydd yn ymwneud â honiadau i'r cynghorydd dorri cod ymddygiad y cyngor sir a'r cyngor cymuned yr oedd yn aelod ohonynt, gan iddi gyflawni tramgwydd troseddol trwy sicrhau'n anonest ddileu'r cyfan, neu ran, o atebolrwydd a fodolai am dreth gyngor.

Roedd y cynghorydd wedi pledio'n euog i'r cyhuddiad ac wedi ei dyfarnu'n yn euog yn Llys Ynadon yr Wyddgrug a chafodd ddirwy o £125 ynghyd â chostau.

Cynhaliwyd gwrandawriad gan dribiwnlys achos o blith aelodau'r Panel. Roedd y tribiwnlys achos wedi ei fodloni y bu ymgais fwriadol gan y cynghorydd i dwyllo'r cyngor sir trwy roi darlun ffug o'i sefyllfa ariannol. Daeth y tribiwnlys achos i'r casgliad, trwy'r gollfarn arni yn Llys Ynadon yr Wyddgrug a'r amgylchiadau yn ymwneud â'i chais am fudd-dal treth gyngor, i'r cynghorydd fethu â chydymffurfio â pharagraff 6(1)(a) o god ymddygiad ei chynghorau, sef:

Rhaid i aelodau yn rhinwedd eu swydd neu fel arall, beidio â chyflawni tramgwydd troseddol na pheri bod un yn cael ei gyflawni.

Ystyriodd y tribiwnlys achos holl ffeithiau'r achos, a rhoddodd yn arbennig glod i'r cynghorydd am ei chydweithrediad â'r tribiwnlys, i'r geirda ysgrifenedig ac i hyd ei gwasanaeth i'r etholwyr.



Ond o ystyried yr holl amgylchiadau, roedd y tribiwnlys achos yn credu bod y torri ar y cod ymddygiad yn ddifrifol iawn. Daeth y tribiwnlys i'r penderfyniad unfryd y dylid anghymhwyso'r cynghorydd am ddwy flynedd rhag bod na dod yn aelod o'r awdurdodau perthnasol dan sylw, nac o unrhyw awdurdod perthnasol arall.

APW/002/2003/CT – Cyngor Cymuned Ffynnon Taf

Roedd yr atgyfeiriad gan y Comisiynydd yn ymwneud â honiadau i'r cynghorydd dorri cod ymddygiad y cyngor trwy gyflawni tramgwyddau troseddol, sef tyfu planhigion cannabis a meddu ar resin cannabis.

Dyfarnwyd y cynghorydd yn euog yn Llys y Goron Caerdydd ar 1 Mai 2003 o dyfu cannabis a meddu ar resin cannabis yn groes i Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.

Roedd collfarn flaenrol ar y cynghorydd yn yr un Llys y Goron ar 14 Mai 1999 am dyfu cannabis.

Â chytundeb y cynghorydd, penderfynodd y tribiwnlys achos ar ei ddyfarniad trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. Ystyriodd y tribiwnlys achos holl ffeithiau'r achos ac, yn arbennig, rhoddodd glod i'r cynghorydd am ei gydweithrediad â'r tribiwnlys ac i'r geirda ysgrifenedig a gyflwynwyd.

Ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau, roedd y tribiwnlys yn credu bod y torri ar y cod yn ddifrifol. Roedd y collfarnau yn Llys y Goron Caerdydd yn cael eu dwysáu oherwydd bod gan y cynghorydd gollfarn flaenrol am fath tebyg o drosedd.

Er hynny, rhoddodd y tribiwnlys ystyriaeth i'r ffaith mai cannabis, ac ychydig ohono at ei ddefnydd personol ei hun, oedd y cyffur ym mhob un o'r troseddau. Rhoddodd y tribiwnlys ystyriaeth hefyd i'r ddedfryd a osodwyd gan Lys y Goron. Ystyriodd y tribiwnlys hefyd y lliniariad a gyflwynwyd gan y cynghorydd.

Daeth y tribiwnlys i'r penderfyniad unfryd y dylid atal y cynghorydd am chwe mis rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Cymuned Ffynnon Taf.



Crynodeb o Dribiwnlysoedd Apêl

Derbyniodd y Panel un apêl yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau lleol yn y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn.

APW/003/2003/A – Cyngor Sir Fynwy

Derbyniwyd apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Fynwy bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad yr awdurdod ac y dylid ei atal am gyfnod o fis calendr. Yr honiadau oedd:

- a. nad oedd y cynghorydd wedi dangos parch ac ystyriaeth i eraill;
- b. ei fod wedi ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n peryglu, neu'n debygol o beryglu, amhleidgarwch gweithwyr cyflog y cyngor;
- c. ei fod wedi datgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol heb gydsyniad penodol y person a oedd â'r awdurdod i roi cydsyniad o'r fath;
- d. ei fod wedi ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ystyried ei fod yn dwyn anfri ar swydd aelod neu ar y cyngor.

Yn ystod ei ymchwiliad, ni chafodd y Comisiynydd fod unrhyw dystiolaeth i gefnogi honiad c. Ystyriodd y tribiwnlys apêl holl ffeithiau'r achos a rhoddodd ystyriaeth hefyd i hyd gwasanaeth y cynghorydd, i'r geirda ysgrifenedig i'w gymeriad ac i'w sylwadau ysgrifenedig, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd ar y diwrnod. Er nad oedd yn amau uniondeb y cynghorydd, roedd y tribiwnlys yn ystyried ymddygiad y cynghorydd yn gwbl annerbyniol ac yn fwy felly oherwydd hyd ei wasanaeth a'i statws yn y gymuned.

Penderfynodd y tribiwnlys apêl yn unfrydol gadarnhau penderfyniad y pwyllgor safonau bod y cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir Fynwy. Penderfynodd y tribiwnlys hefyd gyfeirio'r mater yn ôl at y pwyllgor safonau ag argymhelliad y dylai'r cynghorydd gael ei atal rhag gweithredu fel aelod o'r awdurdod am gyfnod o chwe mis.

Ceir adroddiadau ysgrifenedig ar benderfyniadau'r achosion hyn ar wefan y Panel Dyfarnu (www.paneldyfarnucymru.org.uk).



4. Hyfforddi a Datblygu Aelodau

Rhoddwyd cryn bwyslais ar sicrhau bod aelodau'r Panel wedi eu harfogi'n llawn i gyflawni eu swyddogaethau ar driwlynsoedd, yn gyson â'r 'Competence Framework for Chairmen and Members of Tribunals' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol ym mis Hydref 2002. Mae gan y Panel bolisi o wella parhaus ac, i sicrhau bod rhaglenni hyfforddi'n berthnasol, gofynnir i'r aelodau roi adborth ar y cyrsiau a fynychant.

Hyfforddi'r Panel

Cyfarfu'r aelodau ar bedwar achlysur i hyfforddi ac ymglyfarwyddo'n gyffredinol ac i ddatblygu'r tîm yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Cynhaliwyd y seminar hyfforddi cyntaf ar 18 a 19 Mawrth 2003. Hwn oedd y tro cyntaf i aelodau'r Panel gwrdd â'i gilydd ers eu penodi i'r Panel. Roedd hefyd yn gyfle iddynt gwrdd ag aelodau Tîm Cymorth y Panel.

Roedd y cwrs cyntaf hwn yn un dwys ac yn cwmpasu amrywiaeth helaeth o bynciau. Dechreuodd â sgwrs gan Dianne Bevan a fu, cyn ei phenodi'n Ddirprwy Glerc i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn Swyddog Monitro yn Ninas a Sir Caerdydd. Rhannodd Dianne â'r aelodau ei dealltwriaeth hi o oblygiadau ymarferol y cod ymddygiad enghreifftiol a swyddogaeth y swyddog monitro.

Rhoddodd Elwyn Moseley ddarlun gwerthfawr o swyddogaeth y Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru o ran ymdrin â honiadau o gamymddwyn. Cafwyd sesiynau diddorol a llawn gwybodaeth hefyd gan Yvette Genn o'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol, ar driniaeth gyfartal ac osgoi camwahaniaethu mewn tribiwnlysoedd, a chan Dr David Miers, Athro'r Gyfraith a Dirprwy Bennaeth yn Ysgol y Gyfraith Caerdydd, a roddodd orolwg ar Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Mae'r aelodau hefyd wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o hyfforddiant a datblygiad ymarferol ac yn hyn o beth maent wedi elwa ar brofiad ac arbenigedd Michael Woolley a oedd, hyd ei ymddeoliad ym mis Awst 2001, yn Uwch Gynghorydd Hyfforddiant yn y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol. Mae Michael wedi mynd â'r aelodau trwy'r amrywiaeth o sgiliau sy'n angenrheidiol iddynt er mwyn gweithredu fel tribiwnlys.



Y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol

Fel y nodwyd eisoes, mae'r holl aelodau wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant wedi'i seilio ar y fframwaith cymhwysedd a ddatblygwyd gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol, sy'n disgrifio'r sgiliau, y wybodaeth a'r priodweddau ymddygiad generig sy'n angenrheidiol er mwyn perfformio'n effeithiol fel aelodau o dribiwnlys. At hynny, mynychodd pob aelod cyfreithiol o'r Panel gwrs hyfforddi tridiau a gynhaliwyd gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol i'r rhai a fyddai'n gweithredu fel cadeiryddion tribiwnlysoedd.

Hyfforddiant ar y Cyd

Yn dilyn trafodaethau teirochrog â David Laverick, Llywydd Panel Dyfarnu Lloegr a Lorne Crerar, Cynullydd Comisiwn Safonau'r Alban, cytunwyd i gynnal hyfforddiant ar y cyd i aelodau'r Panel i hwyluso rhannu gwybodaeth a phrofiad o'r gwahanol fframweithiau moesegol yn y tair gwlad. Trefnwyd i'r digwyddiad cyntaf o'r fath ddigwydd ym mis Mai 2004.



5. Gorolwg ar Weithdrefnau

Llywodraethir gwaith y Panel Dyfarnu gan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth y DU (yr olaf mewn perthynas ag awdurdodau'r heddlu).

Pennaf nod y Panel Dyfarnu yw sicrhau y caiff pob ochr gyflwyno ei hachosion a chael eu hystyried mor llawn ac mor deg ag sy'n bosibl.

Fel rheol bydd tribiwnlysoedd yn cynnwys cadeirydd sydd â chymhwyster cyfreithiol, ynghyd â dau arall. Gellir amrywio hyn yn ôl doethineb y Llywydd.

Fel rheol, cynhelir gwrandawiadau tribiwnlys yn gyhoeddus ac eithrio pan fo'r tribiwnlys yn credu y byddai cyhoeddusrwydd yn peryglu cyfiawnder, neu pan fo'r atebydd yn cytuno y gellir ymdrin â'r honiadau trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig.

Mae trefniadau gwrandawiadau'n rhoi ystyriaeth i unrhyw anghenion arbennig a fo gan y sawl sy'n mynychu, e.e. mynediad i gadeiriau olwyn, cyfieithydd, cymorth i glywed.

Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r sawl sy'n dymuno i wrandawriad tribiwnlys gael ei gynnal yn Gymraeg ac mae pob cadeirydd tribiwnlys yn siarad Cymraeg.

Mae gan yr unigolyn sy'n destun yr honiadau yr hawl i roi tystiolaeth, i alw tystion, i holi unrhyw dystion ac i annerch y tribiwnlys ar faterion sy'n berthnasol i'r honiadau dan sylw.

Cyhoeddir manylion gwrandawiadau tribiwnlysoedd a'u canlyniad ar wefan y Panel ac yn y wasg leol, fel sy'n briodol.

Mae hawl i apelio o dan adrannau 78(10) a 79(15) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, fel sy'n briodol, yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd achos interim a thribiwnlysoedd achos a sefydlwyd gan y Panel Dyfarnu. Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd apêl, ond, fel corff cyhoeddus, gall y Panel Dyfarnu a'i dribiwnlysoedd hefyd fod yn destun adolygiad barnwrol lle bo hynny'n briodol.

Ceir gwybodaeth bellach am weithdrefnau tribiwnlysoedd ar wefan y Panel Dyfarnu (www.paneldyfarnucymru.org.uk).



6. Yr Uned Gymorth

Cynorthwyr y Panel gan:

Stephen Phipps, Cofrestrydd i'r Panel Dyfarnu.
Carol Webber, Uned Gymorth y Panel Dyfarnu

Cyfeiriad y Panel yw:

Panel Dyfarnu Cymru
Ystafell G-076
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6705/6414

Ffacs: 029 2082 5346

E-bost: adjudication.panel@wales.gsi.gov.uk

Gwefan: www.paneldyfarnucymru.org.uk



